



*Does dim cefnogaeth fel y
gefnogaeth a geir gan riant arall
sydd wedi cael profedigaeth.*



Aching Arms

Dod â chysur ar ôl beichiogrwydd
a cholli baban




 Aching Arms

Os hoffech gael rhagor o
wybodaeth, cysylltwch â ni:

 www.achingarms.co.uk

 info@achingarms.co.uk

 07826 067801

Gallwch gael hyd i ni ar y
cyfryngau cymdeithasol



ar gyfer gweithwyr iechyd
proffesiynol

www.achingarms.co.uk

Rhif Elusen Gofrestredig: 1153296



Beth rydym yn ei wneud

Mae Aching Arms yn darparu cysur a chefnogaeth i deuluoedd mewn profedigaeth ar ôl colli baban yn ystod beichiogrwydd, adeg genedigaeth neu yn fuan wedi hynny.

Rydym yn gweithio'n uniongyrchol gyda bydwragedd a nyrsys mewn dros 170 o ysbytai ledled y wlad, sydd, ar ein rhan, yn cynnig Arth Aching Arms i rieni yn eu gofal.

Mae'r arth yn gweithredu fel cyfrwng sensitif i weithwyr iechyd profesiynol gefnogi a thrafod anghenion emosiynol a lles rhieni, yn enwedig yn y dyddiau cythryblus yn dilyn marwolaeth eu baban.

Rhoddir pob arth Aching Arms yn anrheg gan un teulu sydd wedi cael profedigaeth i deulu arall, i roi gwybod i'r rhieni nad ydynt ar eu pen eu hunain, ac mae pob arth hardd yn gwisgo label personol, mewn llawysgrifen gydag enw'r baban y rhoddir yr arth er cof amdano.

Mae'r label hefyd yn cyfeirio rhieni at ein gwefan, lle gallant gael cefnogaeth a gwybodaeth.

SUT MAE'N GWEITHIO

Mae'r cynllun hwn yn rhad ac am ddim i ysbytai a lleoliadau gofal iechyd profedigaeth.

Bydd un o'n gwirfoddolwyr yn mynd â'r eirth i'ch ysbyty, fel arfer fesul 12 neu 24.

Y cyfan a ofynnwn yw bod eich staff yn rhoi cyfle i rieni fynd ag arth adref gyda nhw yn dilyn marwolaeth eu baban.

“ Pan dderbyniais arth a roddwyd gan rieni Lucas, nid oeddwn yn eu hadnabod, ac ni chefais y pleser o gwrdd â'u baban Lucas, ond teimlais ar unwaith nad oeddwn ar fy mhen fy hun. ”

HYFFORDDIANT AM DDIM

Rydym yn rhoi arweiniad ar sut y gall bydwragedd a nyrsys gynnis yr eirth ac rydym hefyd yn cynnig gweithdy penodol ar hyfforddiant ymwybyddiaeth am golli baban sy'n rhad ac am ddim. Gellir dilyn y cwrs trwy un o'n fideos hyfforddi byr ar-lein neu wyneb yn wyneb.

Nod ein hyfforddiant yw rhoi mwy o ddealltwriaeth am brofiadau rhieni y mae eu babanod wedi marw, ynghyd â gwybodaeth am y budd i rieni o gael gwrthrych meddal i'w anwesu fel rhan o'u proses o alaru.



“ Mae'r elusen yn cael ei gwerthfawrogi gymaint gan lawer o rieni a theuluoedd mewn profedigaeth, ac mae'r eirth yn ychwanegiad i'w groesawu'n fawr i wella ymhellach y gofal profedigaeth y gallwn ei ddarparu mewn ysbytai. ”

GWEITHIO GYDA NI

Ers i ni ddechrau yn 2010, rydym wedi sicrhau bod dros 25,000 o eirth wedi cyrraedd breichiau galarus mamau a thadau mewn profedigaeth, naill ai trwy ysbytai neu geisiadau unigol trwy ein gwefan.

Os hoffech weithio gyda ni i helpu hyd yn oed rhagor o deuluoedd, mae croeso i chi gysylltu â ni.

CEFNOGAETH

SUPPORTING ARMS

Mae ein gwasanaeth Supporting Arms, a gaiff ei redeg gan rieni mewn profedigaeth, yn cynnig cyfle i rieni siarad â rhywun sydd â dealltwriaeth o'r hyn y maent yn mynd drwyddo.

GOFAL RHITHIOL

Mae ein gwasanaeth Gofal Rhithiol yn rhoi cyfle i rieni archebu galwad cymorth fideo gyda'n Rheolwr Gofal mewn Profedigaeth. Mae modd archebu lle trwy'r cyswllt ar ein gwefan.

RHAGLEN BOD GYDA'N GILYDD

Mae'r Rhaglen Bod Gyda'n Gilydd yn nifer o ddiwyddiadau cymunedol gwahanol sy'n dod â rhieni mewn profedigaeth, brodyr a chwiorydd a theuluoedd at ei gilydd.

SUPPORTING ARMS I DADAU

Rydym yn cynnal grŵp ar-lein bob mis yn benodol ar gyfer tadau iddynt allu rhannu a thrafod eu profiadau penodol.



Gall teuluoedd gael cefnogaeth dros y ffôn, drwy neges destun neu e-bost ar **07464 508994** neu **support@achingarms.co.uk**

